**DYDDIADUR 1885 HUGH WILLIAMS, PANT-Y-SAER, TY’NYGONGL, SIR FÔN**

Roedd Hugh Williams (1843-1904), Pant-y-Saer (Isaf), Ty’nygongl, Sir Fôn, yn ŵr nodedig yn ei ddydd. Yn ogystal â bod yn ffermwr, roedd yn flaenor ac yn aelod blaenllaw o Gapel Tabernacl, yn un o arweinyddion eglwys y Methodistiaid Calfinaidd ym Môn, yn Rhyddfrydwr, yn ddirwestwr, yn werinwr, yn llenor, ac yn aelod brwd o sawl cymdeithas yn yr ardal.

Rwyf yn sôn am hanes Hugh Williams yn fwy manwl mewn traethawd arall.

Mae’r traethawd hwn yn trafod ei ddyddiadur o 1885. Etifeddais y dyddiadur gan deulu ei wraig, Margaret Edwards, sef modryb fy Nhaid, Henry Richard Rowlands, Awelon, Ty’nygongl (1889-1966).

**Hugh Williams**

Roedd Hugh Williams yn fab i David a Sydney Williams, Pant-y-Saer – ac ef oedd yr hynaf o bump o blant.

Priododd â Margaret Edwards, Tŷ Newydd, Ty’nygongl, yn 1901.

Ar 6 Rhagfyr 1904 bu farw Hugh Williams yn ddisymwth mewn damwain gyda throl a cheffyl ar yr allt sy’n arwain o’r fferm. Bu galar mawr ar ei ôl; a chafwyd teyrnged iddo yn y papur lleol:

> ‘… un o ‘wŷr mawr’ Môn …. dyn mwyaf cyflawn … yr oedd yn aelod o lawer iawn o wahanol gymdeithasau … nis gall neb ddychmygu sut yr oedd yn gallu dilyn yr oll … mor gyson.’

Yn wir, mae dyddiadur Hugh Williams o 1885 yn llawn o ddigwyddiadau oedd yn ymwneud â’r capel a’r gymdeithas, ond yn bennaf mae’n trafod yr hyn a wnâi ar y fferm a’r tywydd. Gan ei fod yn ddyn cymharol ifanc (41 oed) pan ysgrifennodd y dyddlyfr, mae’n hawdd ei ddychmygu’n mynd ymlaen i ddod yn ddyn adnabyddus yn y blynyddoedd dilynol.

**Y Dyddiadur**

Mae geiriau Hugh Williams wedi eu cofnodi  yn ‘Y Dyddiadur Methodistaidd am 1885’, sy’n llawn gwybodaeth am eglwys Methodistiaid Calfinaidd y cyfnod. Llyfr bach mewn caslyfr brown yw hwn.

Ychydig iawn o le sydd mewn gwirionedd ar gyfer pob diwrnod, ac yn aml iawn dim ond cyfeirio at y tywydd a wna Hugh Williams. Ambell waith nid oes ganddo ddim i'w ddweud : 'Dim neillduol heddyw'.

Er hynny, ac er bod y geiriau yn brin ac yn syml, maent yn cyfeirio at brif nodweddion y cyfnod – ac i Hugh Williams roedd patrwm y gwaith ar y fferm, a'r digwyddiadau yn y capel, yn hollbwysig. Er bod y cofnodion yn gynnil, mae'r iaith a ddefnyddid yn gyfoethog; dyma ychydig o'r geiriau amaethyddol y mae'n eu defnyddio wrth drafod ei waith bob dydd ar y fferm:

Braenaru – 'dechreu/gorphen braenaru' – troi a thrin tir

Drycinllyd – 'tywydd drycinllyd' – stormus, garw

Poathi – poethi? – 'hel eithin a phoathi' – llosgi bonion eithin

Tyndir – 'aredig tyndir' - tir sydd heb gael ei aredig ers blynyddoedd

Llyfnu – 'hau a llyfni llain y gwta' – llusgo'r og dros dir âr neu dir glas – ('to harrow')

Teilo/teilio – 'teilio i datws yn y boreu' – ('to manure')

Tori swch – 'tori swch yn Bryn uchaf' - 'swch' ydi 'share' yn Saesneg (aredig y tir)

Sgyfflio – 'yn sgyfflio beetroot/scyfflio rwdins' – ('to weed or hoe with a scuffler')

Priddo – 'gorphen priddo tatws yn cae yr wyn' - gorchuddio â phridd

Hofio – 'hofio rwdins yn cae y marian' – ('to hoe')

'?Corneio y defaid' - ?torri cyrn y defaid

Talarau – 'yn priddo tatws a trin y talarau' - rhimyn o dir ar hyd ymyl cae a adewir heb ei aredig i adael lle i'r arad droi

Barbro – 'barbro drain ar glawdd cae mawr' - tocio gwrych

Cynyll – 'cynyll ychydig o geirch yn cae pant' - ?cynnull – ('collection/a gathering of harvest etc')

Styciau – 'crybinio ar ol styciau cae uchaf a chau y porth' - nifer o ysgubau wedi eu gosod yn eu sefyll yn erbyn ei gilydd mewn cae i sychu ('stook' yn Saesneg)

Gyrnau – 'toi y gyrnau haidd' - ?pentyrrau ('rick' yn Saesneg)

?Graudio - ?graddoli, gwneud yn wastad – ('to grade')

Hugain – 'nol hugain i bwyso ceirch di bwyso' - ?lluosog hugan – 'hood' yn Saesneg ('weighing hood')

**Gwaith y fferm**

Mae Hugh Williams yn cofnodi prif weithgareddau'r fferm bron bob dydd (ac eithrio ar y Sul). O ddarllen ei sylwadau, mae'n debyg ei fod yn gweithio ar ei ben ei hun y rhan fwyaf o'r amser – nid oes cyfeiriad at unrhyw un arall yn ei gynorthwyo. Mae caledi'r gwaith corfforol yn amlwg ac i'w weld yn aml – er enghraifft, mae'n cymryd  bron bythefnos iddo 'aredig/llyfni ac agor rhesi/ teilo/cau rhesi/hau/gorphen hau beetroots yn cae yr wyn'.

Er mai fferm tua 39 cyfair yn unig oedd Pant-y-Saer, roedd amrywiaeth mawr o gnydau ac anifeiliaid, a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â nhw. Gwelwn hefyd bod patrwm clir i'r flwyddyn amaethyddol. Roedd y gwaith o baratoi'r tir a phlannu yn digwydd ar ddechrau'r flwyddyn, wedyn roedd y cnydau'n cael eu trin, eu cynaeafu, ac yna eu gwerthu. Rhaid cofio bod Sir Fôn yn ardal deg o ran tywydd, felly yr oedd cnydau fel tatws, betys cochion a maip yn bwysig, yn ogystal â cheirch, ŷd a gwair. Hefyd, roedd Tyn-y-Gongl yn agos at arfordir Benllech ac roedd gwymon a thywod yn cael eu casglu a'u defnyddio fel gwrtaith.

O ran y cnydau, dyma'r prif gweithgareddau yn ôl y dyddiadur:

Gaeaf

'Dechrau aredig yn cae yr wyn/Cario tail i cae yr wyn/Cario gwair/Gorphen braenaru/Hel eithin a phoathi/Hel gwmau yn Nhuslan/Yn glan y môr yn hel gwmau/Dechrau aredig yn y ?brig cae cam/Pigo tatws i fyned i Amlwch/Yn Amlwch yn danfon tatws/Aredig tyndir yn cae cam/Tyny rwdins a nol troliau at y ty/Gorphen aredig tyndir/ Tyny maip a rwdins/Nôl gwellt/Cario cerrig/Cario pridd/Nol llwyth o

wman/Dechreu braenaru i hau yn llain y delyn/Cario gwmau i fyny i cae y marian/nôl sand/Agor rhesi tatws yn cae y marian.

Gwanwyn

'Cario y gwmau i'r rhesi a phlanu tatws yn cae y marian/Tyny rwdins/Dechreu hau ceirch/Hau a llyfnu llain y gwta/Agor rhes tatws ac yn teilio/Aredig ceirch a cau rhesi tatws/Plannu tatws/Tori swch yn Bryn uchaf/Llyfnu a hau had gwair yn cae uchaf/Hau haidd yn llain y Delyn/Rowlio llain y delyn/Aredig ponc cae yr wyn/Llyfni ac agor rhesi beetroots yn cae yr wyn/Teilio i beetroots a thatws/Cau rhesi beetroots/Trin tir rwdins/Trin tatws/Yn cae y marain yn paratoi am rwdins/Rowlio cae cam a llain y gwta/Hau manure a gwneud rhesi rwdins yn cae y marian/Sgyfflio beetroot/Nôl gwellt

Haf

'Priddo tatws yn cae yr wyn /Trin y talarau/Nol gro/Teilo faip yn ponc cae yr wyn/Priddo tatws cae yr wyn yr ail dro/Mau maip/Cario gwair/Gorphen trin y talarau a hau maip ynddynt/Tori gwair/Crybeinio gwair/Scyfflio rwdins/Teneuo rwdins/Cario gwair gwaen yn y Rhosboeth/Yn Bodynwch yn pryny to i doi y gwair/Nôl to o'r gors/Cario gwair gallt llain y delyn a rhaffu y das/Chwalu gwair/Gorphen trin taes wair a gafwyd o cae doctor/Dechreu codi ceirch yn cae pant/Barbro drain ar glawdd cae mawr/Trin pen y daes wair bach/Cynyll ychydig o geirch yn cae pant/Tori ceirch cae pant a gorphen cynyll cae cam/Bum yn Cae Eithin, Fairview ?graudio a Bryn Eugrad/Dechrau crybinio cae pant/Cario yd o cae pant a chae uchaf/Cario y ceirch a'r haidd o lain y Delyn a chariot crybinio o'r gwahanol gaeau/Crybinio ar ôl styciau cae uchaf a chau y porth/Trin pen y daes geirch/Yn y Felin yn malu ceirch

Hydref

'Gorphen toi y das geirch/Toi y gyrnau haidd/Dyrnu a thoi y gyrnau geirch/Hel rhedyn yn y bonc/Cario rhedyn i cae pant o'r gwahanol gaeau/Codi tatws/Cario rhedyn i'r das/Nôl ?hugain i bwyso ceirch di bwyso/Myned a cheirch i'r Traeth coch/Pwyso rwdins yn Plasthelwal/Codi tatws yn cae yr wyn/Gorphen codi tatws yn cae y

marian a chae yr wyn/Gorphen cario tatws o cae y marian/Tyny beetroot yn cae yr wyn a'i cario adref/Aredig yn cae pant'

Yr oedd amrywiaeth o anifeiliaid ym Mhant y Saer hefyd, gyda'u hanghenion arbennig:

> 'Gwerthu buwch/Danfon y fuwch dew i Langefni/Yn yr Efail yn pedoli ceffyl/Trin y gwydd/Pedola y gaseg/Nol y gwydd o'r Erw/Danfon yr hwch dew i Bentraeth/Danfon moch Pant y Saer i Bentraeth/Cael llo bach/?Corneio defaid /Gorphen cneifio/Y gaseg yn cael ceffyl/Yn Moelfro yn danfon gwlan i'r factory/Myned a'r fuwch ddu i Lanyrafon at y tarw/Yn Llangefni pryny mahara(i)n heddyw/Yn Llangefni yn y ffair yn gwerthu y llo/Mynd a'r hwch i Bencraig at y baedd/Yr hwch yn dod oddiwrth y baedd/Yn y felin yn nôl blawd moch/Danfon y moch tewion i Bentraeth/Yn Llangefni yn prynu dau fochyn bach.'

Yn ogystal â'i waith ar y fferm, ymddengys bod Hugh Williams yn gwneud gwaith i eraill ar y ffermydd cyfagos, unai fel contractwr neu fel cymwynas i'w gymdogion:

> 'dechreu aredig/gorphen braenaru/agor rhes tatws ac yn teilo/aredig ceirch ac yn cau rhesi tatws/gorphen hau ceirch/trin tir rwdins/gorphen hau rwdins/trin tatws/cario gwair yn yr Erw'
>
> 'aredig tyndir/nôl sand/aredig i datws/tori swch/teilo i datws/hau ceirch a phlanu tatws/trin tir rwdins yn Bryn Uchaf'
>
> 'cario gwair yn Penybonc'
>
> 'cario gwair yn Cae Eithin/nôl gwair o'r Rhuddlan bach i Cae Eithin'
>
> 'cario gwair gwaen yn y Rhosboeth'
>
> 'chwalu/cario gwair o waen/trin tas wair cae Doctor'
>
> 'Bum yn Cae Eithin, Fairview graudio a Bryn Eugrad'
>
> 'pwyso rwdins yn Plasthelwal'

Roedd hefyd yn mynd o gwmpas ffermydd lleol yn dyrnu. Ceir cyfeiriadau at y 'dyrnwr' a'r 'dyrnwr mawr', felly efallai bod ganddo ddau fath o ddyrnwr. Mae'n sôn am fynd â'r peiriant i Rhosboeth, Tyddyn Eden, Plasuchaf, Tynygongl Farm, y Glyn, y Ty Croes, Tyn y Felin, Monachlog a Phant y saer.

Roedd Hugh Williams hefyd yn asiant i '*Odams' Manures'* – sef cwmni gwrtaith. Roedd Hugh Williams yn teithio ymhellach gyda'r gwaith hwn:

> 'Ar gerdded gyda phapurau 'Manure''
>
> 'danfon Manure i Peneithin/Erw/Ty Mawr/Tynewydd Penrhosllugwy/Pantisaf/Minffordd'
>
> 'ail bacio peth o'r 'manure'/danfon 15 cant o manure i'r bagwyr bach '
>
> 'Yn Bangor yn talu am y manure'

Ac ar Ddydd Nadolig, a thrannoeth, roedd Hugh Williams yn:

> 'Rhannu Almanaciau 'Odams Manure''

Mae'r dyddiadur yn cyfeirio at nifer o gaeau Pant-y-Saer; ar y cyfan mae enwau'r caeau yn cytuno â manylion y fferm yn y catalog arwerthiant, pan brynwyd hi gan Hugh Williams yn 1894:

| *Dyddiadur* | *Arwerthiant* |
|---|---|
| cae yr wyn | Cae yr Wyn |
| cae cam | Cae Cam |
| llain y gwta | Llain Cwtta |
| llain y Delyn | Llain Delyn |
| cae pant | Cae Pant |
| cae y marian | Cae Marian, Marian, Marian Ganol a Marian Bach |
| y bonc | Bonc Fawr, Bonc Bach a Pen y Bonc |
| llain y lwyd | Llain lwyd |
| cae ysgubor | Cae Sgubor |

| | |
|---|---|
| cae Doctor | Cae Doctor |
| cae mawr | Cae Mawr |
| cae uchaf | Cae Uchaf |

Mae Hugh Williams yn cyfeirio at lu o ffermydd a thai yn y cylch:

> 'Yr Efail/Yr Erw/Huslan/Penybonc/Peneithin/Ty Croes/Ysguborddegwm/Bryn Uchaf/Ty Mawr/Tynewydd Penrhosllugwy/Gamdda/Maen Eryr/Pantisaf/Tyn y lon/Muriau bach/Minffordd/Y Bont/Pensarn berw/Pwllmelyn/Glandwr/Cae Eithin/Rhuddlan bach/Cae Eithin/Rhosboeth/Bodynwch/Ty Bach/Fairview/Bryn Eugrad/Berth lwyd/Pantygaseg/Tyddyn Eden/Plasuchaf/Tynygongl Farm/y Glyn/Ty Croes/Tyn y felin/Monachlog/Pant y Saer/Plasthelwal/Bryn goleu/Pencraig'

**Tywydd**

Roedd y tywydd yn rhan annatod o batrwm beunyddiol y fferm, ac mae Hugh Williams yn cofnodi'r tywydd bron bob dydd (ac eithrio ar y Sul). Dyma rai o'i sylwadau:

> 'Tywydd oer rhewllyd/Tywydd drycinllyd/Hin led laith/[yn mis Mai] Bwrw eira fel cenllysg/Wedi clearu tipyn yr wythnos hon/[yn mis Gorphenaf] Bwrw gwlaw trwy y dydd. Wedi bod yn sych am wythnosau. Da iawn ei gael. Dylem fendithio fawr am y gwlaw/[yn mis Medi] Canol y cynhauaf yd yr wythnos hon. Wythnos gymysg o ran yr hin, peth tywydd da a pheth yn wlawog/Hin drycinog'

**Capel**

Codwyd Hugh Williams yn flaenor yng Nghapel Tabernacl yn 1877. Yr oedd y capel yn ei anterth yn y cyfnod hwn, ac mae'n amlwg bod Hugh Williams yn cymryd rhan flaengar mewn capel llewyrchus.

Mae enw pob pregethwr a ddeuai i'r capel ar y Sul wedi cael ei gofnodi yn y dyddiadur, ynghyd â thestun pregethau'r bore a'r hwyr:

> 'Ionawr 18 *Hugh Pritchard Llanerchymedd* Am 10 Ephisiaid 1.14 *J H Davies America* Am 6 Hosea 14.20'

Weithiau roedd pregethwr arbennig yn ymweld â'r cylch, a byddai Hugh Williams yn ei ddilyn ar ei daith (yn gymysg â gwaith y fferm):

> 'Mehefin 23 *H R Williams America* Am 7 Hebreaid 12.24 Glasinfryn am 10. Yn sgyfflio beetroot yn Pwllmelyn. Yn nol gwellt am 6.00. Am 10 Llanallgo'

Ceir ambell sylw ynglŷn â'r gwasanaethau:

> 'Cyfarfod gweddi boreu a'r hwyr. Cyfarfodydd ysgafn'
>
> 'Cyfarfodydd diolch am y cynhauaf'
>
> 'Cyfarfodydd gweddiau trwy y dydd. Rhai da.'

Mae'r dyddiadur yn cofnodi ei deithiau ar hyd a lled Sir Fôn fel cynrychiolydd Dosbarth y Tabernacl yn y Cyfarfod Misol – Beaumaris, Amlwch, Bethel, Elim, Llanrhuddlad, Llanddyfnan, a Gwalchmai. Yn Hydref 1885, capel y Tabernacl oedd yn croesawu'r Cyfarfod Misol:

> 'Hydref 26 Cyfarfod misol Tabernacl. Y cyfarfod misol yn myned heibio yn hynod o ddymunol. Hydref 27 Rhannau cyhoeddus y Cyfarfod misol yn effeithiol.'

(Mae cofnodion y Cyfarfod Misol yn y Tabernacl am Hydref 26 a 27 1885 yn dweud:

> 'Hanes yr achos yn Tabernacl a Traethcoch, a phrofiad y swyddogion. Dangosai yr adroddiad fod yma lafur mawr gyda'r achos yn ei holl ranau, ac ymdrech i helaethu y terfynau, ac heblaw fod y Tabernacl yn gapel wedi ei adnewyddu yn ddiweddar, ac erbyn hyn i'w olygu ymhlith goreuon ein gwlad. Y mae ystafell brydferth a chyfleus at wasanaeth yr achos fel yr oedd y cyfan yn peru i'r dieithriaid oedd yn bresenol deimlo fod gan y bobl hyn gallon i weithio.' *Cofnodion y Cyfarfod Misol, C.M. Môn,* Archifau Môn)

Yn wir, daeth Hugh Williams yn adnabyddus fel un o aelodau lleyg mwyaf pybyr y Cyfarfod Misol. Roedd hefyd yn ysgrifennydd y Cyfarfod Dosbarth o 1885 hyd 1904, ac mae'r dyddiadur yn nodi rhai o'r rhain – '*Yn Glasinfryn mewn cyfarfod dosbarth'.*

Roedd yn mynychu cyfarfodydd pregethu, cymanfaoedd a chyfarfodydd eraill, ac yr oedd yn weithgar dros yr eglwys:

> 'Tendio y te parti ar Gyfarfod cystadleuol heddyw'
>
> 'Yn Pont Menai yn nghyfarfod y Canmlwyddiant. Cyfarfod llwyddianus.'
>
> 'Nôl llwyth o ro at y Capel'
>
> 'Yn Penygarnedd mewn Pwyllgor i drefnu ar gyfer Cymanfa y Plant'
>
> 'Yn Bangor yn pryny Cadeiriau i'r Capel'
>
> 'Yn Menai Bridge mewn cymanfa chwarterol perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd'

Wrth ddarllen y dyddiadur, gwelir mai Hugh Williams oedd yn trefnu rhaglen y pregethwyr i'r Tabernacl – yn wir, yng nghefn y llyfr y mae enwau pregethwyr wedi eu trefnu hyd at 1890, bum mlynedd yn ddiweddarach. Bu rhai o weinidogion mwyaf adnabyddus y cyfnod yn pregethu yn y Tabernacl yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys: Robert Hughes, Gaerwen; John Richard Hughes, Brynteg; James Donne, Llangefni; Simon A Fraser, Llanfairpwll; Owen Parry, Cefn Bach; John Williams, Dwyran; Richard Jones, Nebo; John Roberts, Tai(r) Hen; Morris Owen Jones, Porthaethwy; Thomas Jones, Dwyran; William Pritchard, Pentraeth; a John Williams, Llanerchymedd. Roedd Capel y Tabernacl yn cael ei fugeilio gan William Hughes, John Roberts, a John Richard Hughes (Brynteg) yn ystod y flwyddyn.

Roedd Hugh Williams yn drysorydd y capel ac roedd yn cofnodi'r casgliadau ar gyfer y gwahanol achosion:

> 'Casgladiau i'r Tylodion yn y Tabernacl Môn am y flwyddyn 1885 … ' [cyfanswm £4.15.5 ½]
>
> 'Taliadau i'r tylodion …' [13 o enwau, gan gynnwys 'I blant Robert Jones, Bwlch 12s.4d.']
>
> 'Casgliad at gapel Traeth coch …' [5 capel yn cyfrannu]
>
> 'Amrywiol gasgliadau yn y Tabernacl Môn am y fl. 1885 …'
>
> 'Diolchgarwch am y Cynhauaf 1885 …'

'At y cyfarfod misol Hydref 18/85 …'

'At y Biblau yn y ?Cl… yn yr ysgol Sul …'

'Casgliad at y taflenni canu yn y dosbarth Ebrill 3/85 …'

Ceir cofnodion o gyfarfodydd swyddogion y capel a manylion eraill:

'Brodyr i gynorthwyo diwrnod y cyfarfod misol … [8 o enwau]'

'Pwyllgor o Swyddogion Eglwys y Tabernacl Chwefror 12/85: Trefnwyd i geisio adferu aelodau gwrthgiliedig. Soniwyd am y rhai canlynol … [9 o enwau]'

'Rhestr o rai ar brawf yn yr Eglwys …' [13 o enwau] 'Rhai eraill yma ers blynyddoedd … [2 enw]'

'Pwyllgor yr Eglwys yn nhy'r Capel Mawrth 10/85. Rhoddwyd ystyriaeth i bris yr Eisteddleoedd …' Mawrth 13/85 - 'Penderfynwyd.. tori drain ..tyny wal cwrt capel .. cael dau dŷ bach …'

'Cyfarfod Athrawon y Tabernacl Ebrill 30/85 …'

Roedd Hugh Williams hefyd yn weithgar gydag Ysgol Sul y Tabernacl, ac yn aelod o Fwrdd Ysgol Tabernacl, ac mae'n cyfeirio at ei gyfraniad yn y maes hwn, ochr yn ochr â'i waith ar y ffarm:

'Cyfarfod ysgol y Tabernacl. Cyfarfodydd da y boreu a'r prydnawn'

'Cyfarfod gwobrwyo ysgol Tabernacl yn Llangefni heddyw yn y prydnawn. Aredig yn llain y gwta yn y boreu. Rhai i anerch y cyfarfod – O Hughes Tŷ Bach. J Hughes Bryngoronwy. Rhai i gyflwyno y gwobrwyon – W Lewis, J Jones, J Griffiths, John Williams, William Williams Tynygongl.'

Fel gŵr uchel ei barch yn y plwyf, ac mae'n debyg fel cynrychiolydd ar ran Capel y Tabernacl, yr oedd Hugh Williams yn mynychu claddedigaethau:

'Claddedigaeth Hugh Williams Amlwch Port yn mynwent Llanfairmathafarneithaf'

'Mewn claddedigaeth geneth bach W Williams Berth lwyd yr hon a glydwyd i fynwent Llanallgo'

‘Claddedigaeth fy Ewythr Marian ?glas’

‘Claddedigaeth bachgen William Hughes Bryn goleu isaf’

**Gwleidyddiaeth**

Yr oedd Hugh Williams yn ymwneud â gwleidyddiaeth ar ran y Blaid Ryddfrydol. Mae’r dyddiadur yn cofnodi ei fod yn mynychu cyfarfodydd a’i fod yn weithgar dros yr Aelod Seneddol, Richard Davies, yn yr Etholiad Cyffredinol:

‘Yn Llangefni yn y Committee Cyffredinol a berthyn i’r Rhyddfrydwyr’

‘Yn Llangefni mewn Cyfarfod politicaidd’

‘Yn Amlwch mewn Cyfarfod Rhyddfrydig’

‘Yn Marian Glas mewn Committee Etholiadol’

‘Yn Penrhoslligwy yn canvasio dros Mr Davies. Yn y cyfarfod y nos’

‘Tachwedd 28  Yn Marian glas yn y booth polio’

‘Tachwedd 30  Yn Llangefni yn disgwyl am ganlyniad yr Etholiad. 950 o fwyafrif i Mr Davies’

(Roedd Richard Davies (1818-1896) yn ddyn blaengar yn Sir Fôn, yn berchennog busnes llongau, yn Ustus Heddwch anghydffurfiol cyntaf y Sir, yn Uwch Siryf ac yn Arglwydd Raglaw. Cafodd ei ethol yn gyntaf yn 1868 ac ymddeolodd yn 1886, oherwydd ei wrthwynebiad i hunanlywodraeth yn Iwerddon. Fe aeth Hugh Williams ei hun ymlaen i fod yn ymgeisydd dros y Rhyddfrydwyr yn etholiadau'r Cyngor Sir).

**Cymdeithas**

Roedd Hugh Williams yn weithgar iawn yn ei gymdeithas, ffaith a ddaeth yn fwy amlwg yn ystod y blynyddoedd a ddilynodd. Mae cofnod yn y dyddiadur ym mis Mai:

‘Yn Marian Glas yn y Clyb trwy y dydd’

Mae’n debyg mai’r ‘Clyb’ y mae’n cyfeirio ato oedd ‘Cymdeithas y Brodyr Annibynol’, ac fe aeth Hugh Williams ymlaen i fod yn llywydd y Gymdeithas hon. Roedd y Gymdeithas yn un o’r cymdeithasau llesiant (‘friendly societies’)

oedd yn bodoli ar y pryd. Roedd y Gymdeithas yn gweithio fel elusen trwy dderbyn rhoddion aelodaeth, a dosbarthu taliadau lles i dlodion a chleifion a chyfrannu tuag at angladdau.

Byddai'n mynd yn ei ferlen a thrap i gynebryngau pobl o gwmpas y fro:

> 'Yn Bangor yn hebrwng John Thomas Gamdda i dy ei hen gartref yn mynwent Eglwys Llaneugrad/Hebrwng Ann Williams Bryn uchaf i dy ei hen gartref/Yn danfon John Rowlands Muriau bach i dy ei hen gartref/Yn Llangefni yn danfon dodfren Margared Davies ysguborddegwm/Ym Mangor yn danfon Capt Edward Owen i dy ei hen gartref/Hebrwng R Hughes y Glyn i dy ei hen gartref'

Roedd hefyd yn mynychu eisteddfodau'r cylch a'u math:

> 'Yn Pentraeth mewn cyfarfod cystadleuol gyd ar hwyr'

Ar ben hyn i gyd, yr oedd ganddo dasgau personol i'w cyflawni:

> 'Yn Llangefni yn talu i'r Ffarier'

> 'Nôl glo o'r Benllech'

> 'Yn Llangefni yn codi arian o'r Bank/yn talu am yr Ardreth'

> 'Yn y Tŷ Bach yn y prydnawn yn cael trwsio fy esgid'

Mae dyddiadur Hugh Williams yn rhoi mewnwelediad difyr i'r oes a hefyd i'w fywyd dyddiol. Yn wir, yn ystod y blynyddoedd nesaf aeth ymlaen i fod yn arweinydd brwdfrydig a nodedig yn ei gymdeithas a'i gapel. Mae'n bosib y byddai wedi gwneud llawer mwy oni bai am yr anffawd a'i lladdodd pan oedd yn 60 mlwydd oed.

**Emyr Roberts, 199 Cyncoed Road, Cyncoed, Caerdydd CF23 6AJ**

**Mai 2016**